**CYNGOR BWRDEISTREF SIROL MERTHYR TUDFIL**
**Merthyr Tydfil County Borough Council**

## Learning Directorate
## Cyfarwyddiaeth Dysgu

# Polisi
# Gwasanaeth Dysgu Arbennig

| | |
|---|---|
| **Enw'r Prosiect** | **Dysgu Arbennig** |
| **Dogfen** | **Polisi** |
| **Rhyddhau** | **Terfynol** |
| **Fersiwn** | **1.4** |
| **Dyddiad** | **Awst 2020** |
| **Awdur** | **Sarah Bowen** |

## Cefndir

Mae Dysgu Arbennig ar gael i ddarparu addysg am gyfnod byr i ddisgyblion na all, oherwydd problemau meddygol, seiciatrig, seicolegol neu ymddygiadol, fynychu'r ysgol. Mae parhad addysg drwy gyswllt rheolaidd a llif gwybodaeth rhwng y gwasanaeth ac ysgol y disgybl o'r pwysigrwydd pennaf.

Nid darparu ateb amgen parhaol yn lle ysgol llawn amser yw nod Dysgu Arbennig, ond yn hytrach, leihau'r anawsterau pan fo rhesymau meddygol neu arall yn arwain at absenoldeb hir dymor o'r ysgol ac yn ei hanfod hwyluso dychweliad y disgybl i addysg lawn amser.

Mae Dysgu Arbennig yn bodoli i ddiwallu cyfrifoldeb statudol yr Awdurdod Lleol tuag at ddisgyblion na all fynychu'r ysgol ac mae'n ceisio atal disgyblion o'r fath rhag syrthio'n ôl gyda'u haddysg.

Gellir dyrannu Dysgu Arbennig ar un o bedair lefel

- Dysgu wyneb yn wyneb yn y cartref
- Dysgu wyneb yn wyneb mewn lleoliad cymunedol
- Dysgu grŵp bach (rhwng dau a phum disgybl) mewn lleoliad cymunedol
- Dysgu grŵp bach (rhwng dau a phump o bobl) mewn lleoliad ysgol neu gyda darparwr allanol

## Nod

Nod Gwasanaeth Dysgu Arbennig Merthyr Tudful yw:

(a) Diwallu cyfrifoldeb statudol yr ALl tuag at ddisgyblion na all fynychu'r ysgol.
(b) Atal y disgyblion hyn rhag syrthio'n ôl gyda'u gwaith ysgol.
(c) Gwella mynediad at addysg o ansawdd.
(d) Ailintegreiddio disgyblion yn ôl i addysg brif ffrwd y cyfle cynharaf posibl.
(e) Lleihau'r risgiau o dangyflawni a datgyweddu; a
(f) Sicrhau trefniadau pontio llwyddiannus.

## Y Broses Atgyfeirio

Os yw eich disgybl yn mynychu ysgol brif ffrwd ar hyn o bryd, rhaid i'r atgyfeirio at y gwasanaeth hwn darddu o aelod priodol o'r staff yn yr ysgol honno, er enghraifft pennaeth ysgol gynradd neu bennaeth ysgol uwchradd a fydd wedi dilyn y weithdrefn a amlinellwyd **(Atodiad 1).**

Dylai asiantaethau eraill, sy'n bryderus am lesiant disgybl penodol ac yn ystyried fod cyfnod o Ddysgu Arbennig yn briodol, gysylltu i ddechrau gyda'r ysgol i drafod eu pryderon.

Rhaid i atgyfeiriadau at y gwasanaeth hwn gael tystiolaeth oddi wrth un ai'r Gwasanaeth Iechyd (Meddyg Teulu, Meddyg Plant, CAMHS) neu'r Gwasanaeth Seicoleg Addysgiadol i gadarnhau na all y disgybl fynychu'r ysgol am un o'r rhesymau canlynol:

- Mae'r disgybl yn feddygol anffit i fynychu'r ysgol am gyfnod penodol o amser
- Mae anghenion iechyd meddwl a llesiant gan y disgybl sy'n ei atal rhag mynychu'r ysgol am gyfnod o amser.
- Cafodd y disgybl ei eithrio o'r ysgol am fwy na 15 dydd a/neu roedd yn anabl i ddychwelyd i'r ysgol y pryd hwn yn sgil risgiau amddiffyn neu iechyd a diogelwch.

**Gweithredu gofynnol i gychwyn yr atgyfeiriad**

Os yw ysgol / asiantaeth yn pryderu am ddisgybl:

- Sydd â salwch hir dymor posibl neu fowt ailadroddus o salwch cronig gan arwain at gyfnodau helaeth o absenoldeb.
- Sy'n gwrthod mynychu'r ysgol.
- Sy'n feichiog ac a fydd o ganlyniad yn cael ymyriad i'w haddysg cyn ac ar ôl geni'r babi.
- Sydd wedi derbyn eithrio tymor penodol sy'n fwy na 15 dydd; neu
- Sydd wedi cael ei eithrio'n barhaol.

Rhaid i'r ysgol / asiantaeth arddangos ei bod wedi cymryd pob cam posibl i fynd i'r afael â, neu ymateb i'r sefyllfa, ond heb lwyddiant. Rhaid i'r asiantaethau priodol gwblhau'r ffurflen atgyfeirio at Ddysgu Arbennig **(Atodiad 2)** a dychwelyd hon i'r Cydlynydd Dysgu Arbennig (CDA).
Caiff yr atgyfeirio ei ystyried yn y cyfarfod priodol nesaf o'r Panel Dysgu Arbennig ar gyfer ystyriaeth. Yna gellir gofyn am wybodaeth bellach drwy:

- Gwasanaeth Cynhwysiant Addysg
- Cynhwysiant
- Anghenion Dysgu Ychwanegol
- Seicolegydd Addysg Plant
- Gwasanaeth Cefnogi Ysgol (Tiwtor Cefnogi Ymddygiad / Yn y Gymuned)
- Meddyg Teulu
- Ymgynghorydd Plant
- Ymgynghorydd CAMHS
- Adran Gwasanaethau Cymdeithasol

Os gaiff Dysgu Arbennig ei gynnig bydd y panel hefyd yn ystyried:

- Lleoliad ar gyfer Dysgu Arbennig.
- Amcangyfrif o hyd y Dysgu Arbennig.
- Cyfraniadau addas oddi wrth asiantaethau eraill fel rhan o raglen gymorth.
- Rhaglen ailintegreiddio.
- Dyddiad cyfarfod nesaf y Panel Dysgu Arbennig.

O dan amgylchiadau arferol, cytunir ar ddysgu am gyfnod penodol. Byddai'r CDA yn cymryd hwn yn ôl i'r Panel Dysgu Arbennig adolygu ac argymell a yw hyn i barhau ai peidio.

**Cyfrifoldebau'r Ysgol**

Mae'r ysgol yn cadw'r nawdd ar gyfer y disgybl a bydd yn parhau'n gyfrifol am:

- Sicrhau fod **pob** rhan o'r ffurflen atgyfeirio wedi ei chwblhau.
- Sicrhau fod cynlluniau gwaith hanner tymhorol ar gael ym mhob pwnc y byddai'r disgybl yn ei astudio fel arfer. Bydd ailintegreiddio llwyddiannus ond yn bosibl os yw'r disgybl yn teimlo'n hyderus ei fod wedi cynnwys rhaglen ddysgu debyg i'w grŵp o gyfoedion.
- Ble y bo'n bosibl, benthyg deunydd adnoddau priodol. Dylai'r rhain gael eu heitemeiddio a/u nodi wrth eu dychwelyd i'r ysgol, ac eithrio Addysg Gorfforol a TGCh.
- Gwneud trefniadau ar gyfer arholiadau, profion ac asesiadau.
- Asesu gwaith cwrs.
- Cyfweliadau gyrfaol.
- Lleoliadau profiad gwaith os yw hyn yn briodol.

- Llywio’r holl asiantaethau eraill o unrhyw newid neu addasu i’r cynllun cytunedig ar gyfer Dysgu Arbennig.
- Cysylltu gyda’r Tiwtor Cartref a CDA, trywydd cyfathrebu ac yn y blaen.
- Cwblhau asesiad risg ar gyfer disgyblion
- Cyflenwi cwricwlwm eang a chytbwys.
- Monitro a gweithredu materion absenoldeb.
- Gweithredu’r rhaglen gytunedig o ailintegreiddio.
- Darparu person dynodedig i’r tiwtor/ athro gysylltu ag e o ran gwaith.
- Dychwelyd gwaith wedi ei farcio i’r disgybl.

**Cyfrifoldebau’r Tiwtor / Athro**

- Cysylltu â’r ysgol a’r CDA;
- Cwblhau a chyflwyno taflenni amser misol ac adroddiadau dyddiol i’r CDA a’r ysgol **(Atodiad 3);**
- Presenoldeb mewn sesiynau hyfforddi;
- Cysylltu â’r ysgol a threfnu i gasglu cynlluniau gwaith pan fo’n ofynnol;
- Cysylltu â’r teulu o ran amser a lleoliad sesiynau, os ydyn nhw i ddigwydd yn y cartref;
- Llywio’r CDA am unrhyw bryderon ynghylch y plentyn neu ddarpariaeth o’r Dysgu Arbennig;
- Sicrhau fod eu sgiliau proffesiynol yn cael eu diweddaru’n rheolaidd.
- Dysgu’r disgybl(ion) a ddynodwyd gan y tiwtor drwy glirio.

Caiff pob tiwtor amser CPA wedi ei ddyrannu ar gyfer cynllunio, paratoi ac asesu sy’n gyfanswm o 10% o’i amserlen addysgu. Gellir cronni hwn dros gyfnod o fis, ond ni ddylid ei drosglwyddo i’r mis canlynol i’w galluogi i gwblhau’r dyletswyddau uchod. Mae hyn hefyd yn cynnwys tiwtoriaid gaiff eu cyflogi drwy asiantaeth. Nid oes raid i diwtoriaid gadw at oriau ysgol sef 8.45am – 3.30pm, os oes cytundeb gyda'r rhieni / gofalwyr, gall yr oriau fod y tu allan i oriau ysgol.

**Cyfrifoldebau’r Awdurdod Lleol**

- Sicrhau amgylchedd addas a diogel ble gall tiwtor ddysgu gan sicrhau fod yna orsaf waith briodol ar gael;
- Sicrhau fod asesiad iechyd a diogelwch yn cael ei gwblhau i diwtoriaid;
- Monitro anfon adroddiad misol i’r ysgol yn amlinellu cynnydd y disgybl a’r hyn a gyflawnodd;
- Bod yn bresennol mewn cyfarfodydd adolygu;
- Darparu cyfleoedd i diwtoriaid dderbyn hyfforddiant priodol mewn-gwasanaeth e.e. Amddiffyn/Diogelu
- Cysylltu’n agos ag ysgolion a’r gwasanaeth cynghori, er mwyn cael sicrwydd ansawdd i’r addysgu, dysgu ac asesu a ddarperir gan y gwasanaeth;
- Sicrhau fod yna ddigon o gyfleoedd i alluogi tiwtoriaid i gael Amser Cynllunio, Paratoi ac Asesu, sef cyfanswm o 10% o’r amserlen addysgu.

Mae Rhaglen Graidd gynhwysfawr ar gyfer hyfforddiant ar gael i diwtoriaid a gyflogir gan yr ALl, drwy drefniant ymlaen llaw gyda’r CDA. Mae tiwtoriaid nad ydynt yn cael eu cyflogi gan yr Awdurdod Lleol yn cael mynediad at hyfforddiant a drefnwyd gan eu hasiantaeth yn ogystal â’r gallu i gael mynediad at hyfforddiant oddi fewn i Raglen Graidd Merthyr Tudful a hyfforddiant bwrdd arholi priodol i’w rôl.

**Monitro Trefniadau**

Bydd yr Awdurdod Lleol yn monitro ansawdd y ddarpariaeth drwy gydol y flwyddyn academaidd. Caiff deilliannau'r monitro eu rhannu gyda'r Panel Dysgu Arbennig a'r CDA. **(Atodiad 5**).

**Cyfrifoldebau Rhiant / Gofalwr**

- Darparu lle tawel ar gyfer y wers, sicrhau ei fod yn ddi-fwg a heb anifail anwes.
- Sicrhau fod y disgybl ar gael ac yn brydlon ar gyfer addysgu a bod y disgybl wedi ei wisgo'n addas yn barod ar gyfer ei addysgu.
- Hysbysu'r Awdurdod Lleol a'r tiwtor, ymlaen llaw, os nad yw'r disgybl ar gael i'w addysgu yn sgil salwch, apwyntiad meddygol ayb.
- Cysylltu â'r Awdurdod Lleol a'r tiwtor os, am unrhyw reswm, nad yw'r disgybl ar gael ar gyfer addysgu ar fyr rybudd iawn.
- Arwyddo amserlen y tiwtor ar ôl pob sesiwn addysgu.
- Ymroi i ddarparu gwagle gwaith clir, yn cynnwys gorsaf weithio addas.

**Presenoldeb**

Caiff presenoldeb mewn perthynas â'r disgyblion hynny sy'n cael eu dysgu gan diwtor ei anfon at yr ysgol yn wythnosol gan y CDA, i'r ysgol ei adlewyrchu yn y cofnodion. Dylai'r ysgol fynd ar ôl pob mater yn ymwneud â diffyg presenoldeb a chadarnhau gweithredu gyda'r CDA fel y gellir cytuno ar y camau nesaf.

**Gwerthuso'r Gwasanaeth**

Yn dilyn ailintegreiddio'r disgybl yn yr ysgol, mae'n ofynnol bod y disgyblion a'u rhieni/gofalwyr yn cwblhau gwerthusiad o'r broses er mwyn llywio datblygiad pellach o'r Gwasanaeth Dysgu Arbennig a gwella ymhellach ansawdd y gwasanaeth a ddarparwyd i ysgolion a disgyblion. Caiff hyn ei bostio i rieni / gofalwyr pan fydd gwaith y tiwtor yn dod i ben. **(Gweler Atodiad 6 & 7).**

**Dileu Dysgu Arbennig**

Os yw disgybl yn methu bod yn bresennol nac ar gael ar gyfer cael ei addysgu a hynny'n rheolaidd a heb dystysgrif feddygol briodol na rheswm dilys dros yr absenoldeb fel y pennir gan y CDA, yna daw'r addysgu i ben nes bod cyfarfod pellach wedi ei alw i sefydlu ffordd ymlaen. Nid yw sesiynau addysgu ynysig ynddynt eu hunain yn cefnogi rhaglen ailintegreiddio ac ni allant roi digon o hyder i ddisgybl er mwyn sicrhau bod ei ddychweliad i'r ysgol yn llwyddiannus.

**Strategaeth Ymadawiad**

Pan fydd Dysgu Arbennig wedi ei ganiatáu gan y Panel Dysgu Arbennig, bydd y CDA yn hysbysu'r pennaeth a'r Uwch Swyddog Lles Addysg o'i benderfyniad a'r dyddiad cytunedig i adolygu'r ddarpariaeth. Yn ddelfrydol, dylai'r adolygiad ddigwydd 6 wythnos o ddyddiad dechrau'r addysgu, gyda golwg ar bennu cynlluniau ailintegreiddio i'r disgybl yn ôl i'r ysgol. Dylai'r adolygiad gael ei gyflawni gan aelod o'r panel, mewn ymgynghoriad â'r tiwtor, yr ysgol ac unrhyw asiantaeth briodol arall. Yna bydd yr aelod o'r panel yn adrodd yn ôl i'r Panel Dysgu Arbennig a fydd yn penderfynu a yw Dysgu Arbennig pellach yn briodol ai peidio.

**Oriau'r ddarpariaeth**

Bydd disgyblion a ymrestrir ar Raglen Ddysgu Arbennig yn derbyn y canlynol, o leiaf:

| | | |
|---|---|---|
| CA1, CA2 a CA3 | - | 1 awr y dydd neu 5 awr yr wythnos |
| CA4 | - | 2 awr y dydd neu 10 awr yr wythnos |

Bydd Dysgu Arbennig i ddisgyblion Blwyddyn 11 yn dod i ben ar ôl eu TGAU olaf.

**Cyllid (Monitro ac Adfachiad)**

Mae cyllideb ysgol yn fwyaf dibynnol ar y nifer o ddisgyblion ar y gofrestr a gall y rhif hwn newid yn ystod y flwyddyn ysgol wrth i ddisgyblion gael addysg heblaw am yn yr ysgol.

Pan fydd disgybl yn cael ei gymryd o'r ysgol dros dro a'i addysgu mewn sefyllfaoedd o'r fath â Dysgu Arbennig, bydd cyfran briodol uned disgybl a bwysolwyd ar sail oedran y disgybl hefyd yn trosglwyddo gan ddod i rym o ddiwrnod y trosglwyddiad.

Caiff cyllideb Dysgu Arbennig ei fonitro gan y Rheolwr Cynhwysiant a'r CDA a chaiff adroddiadau eithrio eu cyflwyno yn unol ag amserlen y rheolwr ariannol corfforaethol.

**Dysgu Arbennig mewn Ysbyty**

Mae'r Gwasanaeth Addysg mewn Ysbyty yn bodoli i gynnig addysg i blant a phobl ifanc mewn ysbyty yn sgil salwch, damwain neu driniaeth am gyflwr hir dymor. Pan fydd plentyn yn symud o'r ysgol i gael ei addysgu mewn ysbyty, mae cyfran briodol uned disgybl a bwysolwyd ar sail oedran y disgybl hefyd yn cael ei drosglwyddo o'r ysgol i'r ALI gan ddod i rym o ddiwrnod y trosglwyddiad.

**Iechyd a Diogelwch**

Mae disgwyl i bob aelod o staff sy'n cymryd rhan wrth gyflenwi Gwasanaeth Dysgu Arbennig ddefnyddio Gwasanaeth Llinell Bywyd yr Awdurdod Lleol. Caiff adroddiadau rheolaidd am ddefnydd ohono eu cyflwyno i'r Cydlynydd Dysgu Arbennig yn fisol.

Pan fo'n briodol, bydd swyddogion cynhwysiant addysg yn mynd gyda'r athro / tiwtor ar ymweliadau cychwynnol â'r cartref.